Finance Committee
Y Pwyllgor Cyllid

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I'r ymgyngoreion ar y rhestr atodedig

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Awst 2012

Annwyl Gyfeillion,

Galwad am wybodaeth – Cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14

Mae pwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn galw am wybodaeth i gynorthwyo gyda'r gwaith o graffu ar Gynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14. Mae gennym ddiddordeb mewn ymchwilio i'r disgwyliadau o ran dyraniadau'r gyllideb, yn arbennig yng ngoleuni'r cynnydd a wnaed mewn cysylltiad ag ymrwymiadau 'Rhaglen Lywodraethu' Llywodraeth Cymru, a gwybod a oes gennych bryderon ynghylch ymrwymiadau/dyraniadau penodol, a ble yr hoffech weld adnoddau'n cael eu canolbwyntio fwyaf, neu feysydd penodol yr hoffech eu gweld yn cael blaenoriaeth.

Nid ydym yn gwybod ar hyn o bryd beth fydd cynigion y gyllideb ddrafft, gan na fyddant yn cael eu cyhoeddi tan fis Hydref 2012. Fodd bynnag, cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol y Rhaglen Lywodraethu ym mis Mai 2012, ac mae hwn yn dangos y cynnydd a wnaed yn ôl ymrwymiadau'r Llywodraeth. Yn ychwanegol at hyn, cyhoeddwyd dyraniadau dangosol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2013-14 yng Nghyllideb Derfynol 2013-14.

Nodwyd pedwar cwestiwn penodol gennym yn y papur hwn. Gallwch ateb unrhyw un neu bob un o'r cwestiynau, neu gallwch roi gwybod i ni am eich pryderon a'ch disgwyliadau o ran y gyllideb ddrafft yn gyffredinol.

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn edrych ar gyllideb Llywodraeth Cymru o safbwynt strategol a chyffredinol. Rydym hefyd yn cydweithio â phwyllgorau eraill y Cynulliad i sicrhau

Ffon / Tel: 029 20 898149
E-bost / E-mail:finance.comm@wales.gov.uk

y caiff cynigion ar gyfer portffolios Gweinidogol penodol eu hystyried yn fanwl. Bydd y pwyllgorau yn cynnal sesiynau i ganolbwyntio ar dystiolaeth gan y Gweinidogion perthnasol er mwyn archwilio i'r agweddau ar y gyllideb sydd o fewn eu cylchoedd gwaith hwy, ac wedyn yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Cyllid, gan amlinellu unrhyw bryderon sydd ganddynt.

Mae rhai pwyllgorau hefyd yn cynnal ymarferion ymgysylltu â rhanddeiliaid sy'n ymwneud â phynciau penodol, ac yn cynnal sesiynau 'speed-dating', trafodaethau â rhanddeiliaid, ac yn ymgysylltu â phobl ifanc.

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn i lywio gwaith y Pwyllgor Cyllid a phwyllgorau eraill y Cynulliad. Os bydd y wybodaeth a ddarperir gennych yn gysylltiedig â maes penodol, byddwn yn anfon y wybodaeth honno at y pwyllgor(au) priodol er mwyn llywio eu gwaith craffu hwy ar waith Gweinidogion unigol.

Ceir rhagor o wybodaeth am y pwyllgorau hyn, ynghyd â gwybodaeth gefndir am y Pwyllgor Cyllid, beth yw cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, a lle y gallwch weld ffigurau dangosol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14 yn atodiad 1.

## Darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor

Gwahoddir pawb sydd â diddordeb i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i Glerc y Pwyllgor Cyllid yn y cyfeiriad uchod, i gyrraedd erbyn dydd Gwener, 14 Medi 2012. Os ydych yn dymuno cyfrannu ond yn pryderu na fydd modd i chi wneud hynny cyn y dyddiad cau, gallwch siarad â Chlerc y Pwyllgor ar 029 2089 8597.

Os yw'n bosibl, anfonwch gopi electronig ar fformat MS Word neu Rich Text, drwy e-bost at Pwyllgor.Cyllid@cymru.gov.uk erbyn dydd Gwener, 14 Medi 2012.

Dylech ddechrau eich cyflwyniad drwy ddarparu rhywfaint o wybodaeth amdanoch eich hun, neu'ch sefydliad, cyn amlinellu eich safbwyntiau a'ch profiadau mewn cysylltiad â rhai neu'r cyfan o'r meysydd canlynol.

Yr hyn yr hoffem ei gael gennych: c**westiynau'r ymgynghoriad**

1. O edrych ar y dyraniadau dangosol ar gyfer cyllideb 2013-14, a oes gennych unrhyw bryderon o safbwynt strategol a chyffredinol?

2. O edrych ar y dyraniadau dangosol ar gyfer cyllideb 2013-14, a oes gennych unrhyw bryderon ynghylch meysydd penodol?

3. Pa ddisgwyliadau sydd gennych o ran cynigion y gyllideb ddrafft ar gyfer 2013-14? Pa ymrwymiadau a blaenoriaethau gwariant yr hoffech eu gweld yng nghynigion y gyllideb ddrafft ar gyfer 2013-14?

4. Mae Llywodraeth newydd Cymru wedi cyhoeddi ei Rhaglen Lywodraethu. Byddwn yn defnyddio'r ddogfen hon i arwain ein gwaith o graffu ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2013-14. Pa newidiadau a fyddech yn eu cynnig er mwyn sicrhau bod y gyllideb yn cyflawni'r amcanion a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu?

Mae'r Pwyllgor wedi gwahodd cyfraniadau gan y rhai sydd ar y rhestr ddosbarthu atodedig (Atodiad 2). Fodd bynnag, byddem yn ddiolchgar pe baech yn anfon **copi o'r llythyr hwn ymlaen at unrhyw unigolion neu sefydliadau** nad ydynt ar y rhestr ond a fyddai am gyfrannu o bosibl. Rhoddwyd copi o'r llythyr hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol, ynghyd â gwahoddiad agored i gyflwyno sylwadau.

Datgelu gwybodaeth

*Dylai tystion fod yn ymwybodol y caiff unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynir i'r Pwyllgor ei thrin fel eiddo'r Pwyllgor. Caiff papurau ysgrifenedig eu cyhoeddi ar wefan y Pwyllgor, a gallent gael eu hargraffu wedyn gyda'r adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth a ystyrir yn ddata personol.*

*Fodd bynnag, os ceir cais am wybodaeth a gyflwynwyd o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, efallai y bydd angen datgelu'r wybodaeth a ddarperir gennych. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.*

*Os byddwch yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, neu os nad ydych yn dymuno i'ch enw, fel awdur y dystiolaeth, gael ei datgelu, rhaid nodi hyn yn glir. Eich cyfrifoldeb chi fydd nodi pa rannau o'r dystiolaeth na ddylent gael eu cyhoeddi, a rhoi dadl resymol dros hynny. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.*

Ceir rhagor o wybodaeth am y Pwyllgor Cyllid a'i alwad am wybodaeth yn: www.cynulliadcymru.org

Yn gywir

Jocelyn Davies
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyllid

## Atodiad 1 - Gwybodaeth gefndir

### Pwy ydym ni?

Pwyllgor trawsbleidiol o Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r Pwyllgor Cyllid, sy'n cynnwys Aelodau o'r pedair plaid wleidyddol a gynrychiolir yn y Cynulliad.

Nid yw'r Pwyllgor yn rhan o Lywodraeth Cymru. Yn hytrach, mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am gyflwyno adroddiad ar gynigion a osodir gerbron y Cynulliad gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â defnyddio adnoddau.

### Pa bwyllgorau eraill sy'n craffu ar y gyllideb?

Y pwyllgorau eraill sy'n craffu ar y gyllideb yw:

- Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
- Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
- Y Pwyllgor Menter a Busnes
- Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd
- Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

### Beth yw cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru?

Rhaid i gynigion y gyllideb ddrafft gynnwys manylion ynghylch faint o adnoddau y mae Llywodraeth Cymru yn cynnig eu defnyddio yn ystod y flwyddyn ariannol ddilynol a ffigurau dangosol ar gyfer y ddwy flwyddyn ariannol ar ôl hynny. Yn fwy penodol, dylai amlinellu gwybodaeth ynghylch:

- yr adnoddau sy'n cael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad, yr Archwilydd Cyffredinol a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus.

- incwm sydd i gael ei gadw gan y sefydliadau hynny (yn hytrach na chael ei ildio i Gronfa Gyfunol Cymru).

- yr arian parod sydd i'w dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru gan y sefydliadau hynny.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi darparu dogfen naratif sy'n rhoi eglurhad pellach o'r dyraniadau manwl i adrannau'r Llywodraeth, yn ogystal â chronfeydd wrth gefn a dyraniadau cyffredinol eraill.

Pam nad ydym yn cynnal yr ymgynghoriad hwn ar ôl i gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru gael eu cyhoeddi?

Ni fydd ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn eithrio rhanddeiliaid rhag hefyd ddarparu gwybodaeth, tystiolaeth, pryderon ac awgrymiadau ynghylch meysydd craffu posibl i bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ôl i'r cynigion ynghylch cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru gael eu cyhoeddi (ar 2 Hydref 2012).

Fodd bynnag, fel arfer bydd pwyllgorau yn dechrau ar y gwaith o graffu ar waith Gweinidogion Cymru ynghylch cynnwys y gyllideb ddrafft wythnos neu bythefnos ar ôl iddi gael ei chyhoeddi, gyda'r bwriad o gyflwyno eu casgliadau i'r Pwyllgor Cyllid ddiwedd mis Hydref. Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Cyllid gyflwyno ei adroddiad ei hun ar y gyllideb ddrafft erbyn 8 Tachwedd.

Golyga hyn fod yr amser sydd ar gael i randdeiliaid leisio eu pryderon i'r pwyllgorau yn brin fel arfer (wythnos neu ddwy). Wrth ymgynghori yn awr, gobeithiwn y bydd gan randdeiliaid fwy o amser i ystyried effaith bosibl y gyllideb.

**Beth yw'r dyraniadau dangosol ar gyfer** 2013-14?

Gellir lawrlwytho Cyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru 2012-13 yma, gan gynnwys dyraniadau dangosol ar gyfer 2013-14, ynghyd â dogfennau esboniadol: http://wales.gov.uk/funding/budget/finalbudget1213/;jsessionid=8JKDQQpXSf1m8TfnvZ634yBxywmnkrp5JjDQ2sGf10tZJtJv8DLn!545803488?lang=en&status=open

Gellir gweld adroddiad cynnydd diweddaraf Llywodraeth Cymru ar y Rhaglen Lywodraethu yma: http://wales.gov.uk/about/programmeforgov/;jsessionid=8JKDQQpXSf1m8TfnvZ634yBxywmnkrp5JjDQ2sGf10tZJtJv8DLn!545803488?lang=en&status=open

Atodiad 2

Y rhestr o ymgyngoreion

| |
|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg |
| Gweithredu dros Blant |
| Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru |
| Age Cymru |
| Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan |
| Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan |
| Rhwydwaith Gwrth-dlodi Cymru |
| Cyngor Celfyddydau Cymru |
| Grŵp Menywod Asiaidd |
| Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr Cymru |
| Cymdeithas Lles Pobl o Bangladesh |
| Barnardos Cymru |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Sefydliad Bevan |
| Cronfa Loteri Fawr Cymru |
| Black Association of Women Stepping Out |
| Rhwydwaith Amgylchedd Pobl Dduon |
| Rhwydwaith Sector Gwirfoddol i Bobl Groenddu Cymru |
| Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru |
| Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain yng Nghymru |
| Y Gymdeithas Ddeintyddol Brydeinig |
| Y Gymdeithas Feddygol Brydeinig |
| Y Gymdeithas Orthodonteg Brydeinig |
| Y Groes Goch Brydeinig |
| Busnes mewn Ffocws |
| Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd |
| Uwch Ranbarth Twristiaeth |
| Ymddiriedolaeth Carbon Cymru |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| Fforwm Gofal Cymru |
| Gyrfa Cymru |
| Gofalwyr Cymru |
| CBI Cymru |
| Sefydliad Siartredig y Cyfrifwyr Rheoli |
| Cymdeithas Siartredig y Ffisiotherapyddion |
| Plant yng Nghymru |
| Comisiynydd Plant Cymru |
| Chwarae Teg |
| Cyngor ar Bopeth Cymru |
| Clybiau Plant Cymru |

| |
|---|
| Coleg y Therapyddion Galwedigaethol |
| Fferylliaeth Gymunedol Cymru |
| Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr Cymru |
| Sgiliau Adeiladu |
| Llais Defnyddwyr Cymru |
| Cyswllt Teulu Cymru |
| Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad (CLA) |
| Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| Croesffyrdd Cymru: gofalu am ofalwyr |
| Cskills |
| Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| Bwrdd Iechyd Cwm Taf |
| Cymorth Cymru |
| Cymru Yfory |
| Cymdeithas Pobl Fyddar Cymru |
| Anabledd Cymru |
| Plant Anabl yn Cyfri Cymru |
| Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru |
| Ymddiriedolaeth Arbed Ynni Cymru |
| Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru |
| Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol |
| Estyn |
| Y Comisiwn Ewropeaidd |
| Undeb Amaethwyr Cymru |
| Comisiwn Coedwigaeth Cymru |
| Y Sefydliad Trafnidiaeth Cludo Nwyddau |
| Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru |
| Y Ddraig Ffynci |
| Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol |
| Y Cyngor Meddygol Cyffredinol |
| Undeb y GMB |
| Llywodraethwyr Cymru |
| Grayling |
| Hafal |
| Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru |
| Addysg Uwch Cymru |
| Bwrdd Iechyd Hywel Dda |
| Y Cyd-gyngor er Lles Mewnfudwyr |
| Rhwydwaith Menywod o Leiafrifoedd Ethnig Cymru |
| Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol |
| Undeb y Mamau yng Nghymru |
| Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon |
| Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) |
| Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU) |
| Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr |
| Y Parciau Cenedlaethol |

| |
|---|
| Cymdeithas Nyrsys Babanod Newyddenedigol |
| Network Rail |
| Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru |
| NSPCC Cymru |
| Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr yng Nghymru |
| NUT Cymru |
| Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| Pakistan Association of Newport & Gwent Welsh Asian Council |
| Passenger Focus Cymru |
| Chwarae Cymru |
| Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Race Equality First |
| Llais Ffoaduriaid Cymru |
| Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig |
| Y Lleng Brydeinig Frenhinol |
| Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu |
| Coleg Brenhinol y Bydwragedd |
| Coleg Brenhinol y Nyrsys |
| Coleg Brenhinol Ffisigwyr Caeredin |
| Coleg Brenhinol Ffisigwyr Llundain |
| Coleg Brenhinol Ffisigwyr a Llawfeddygon Glasgow |
| Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol |
| RSC |
| Y Samariaid |
| Achub y Plant Cymru |
| Sustrans |
| Talking2Minds |
| Cymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol Cymru |
| Ymddiriedolaeth y Tywysog – Prince's Trust Cymru |
| Tros Gynnal |
| TUC Cymru |
| Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru |
| Undeb Prifysgolion a Cholegau Cymru |
| UNSAIN Cymru |
| Undeb Unite |
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre |
| Llais Cymru |
| Voices from Care |
| Cyswllt Amgylchedd Cymru |
| Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru |
| Conffederasiwn GIG Cymru |
| Cymorth i Fenywod Cymru |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |